OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2506

## Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013

## RHAN 5

### Rheoli'r broses o daenu gwrtaith nitrogen

**Mapiau risg**

**19.**—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n taenu tail organig ar y daliad hwnnw gynnal map o'r daliad ("map risg") yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Os bydd amgylchiadau'n newid, rhaid i'r meddiannydd ddiweddaru'r map risg o fewn tri mis i'r newid.

(3) Rhaid i'r map risg ddangos—

(a) pob cae, ynghyd â'i arwynebedd mewn hectarau;

(b) yr holl ddyfroedd wyneb;

(c) unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu bydewau sydd ar y daliad neu sydd o fewn 50 metr i ffin y daliad;

(d) y rhannau â phriddoedd tywodlyd neu denau;

(e) tir sydd ar oleddf o fwy na 12°;

(f) tir sydd o fewn 10 metr i ddyfroedd wyneb;

(g) tir sydd o fewn 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew;

(h) draeniau tir (ac eithrio pibell anhydraidd sydd wedi'i selio);

(i) safleoedd sy'n addas ar gyfer tomenni dros dro mewn caeau os bwriedir defnyddio'r dull hwn o storio tail; a

(j) tir y mae'r risg o oferu drosto yn isel (mae hyn yn opsiynol i feddiannydd nad yw'n bwriadu taenu tail ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel yn ystod y cyfnod storio yn unol â rheoliad 35).

(4) Os yw meddiannydd yn taenu tail organig drwy ddefnyddio cyfarpar taenu manwl hyd at 6 metr o ddŵr wyneb fel y caniateir gan reoliad 22(1), rhaid i'r map risg nodi'r tir sydd o fewn 6 metr i ddyfroedd wyneb.

(5) Rhaid i'r meddiannydd gadw copi o'r map risg.